Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Third Sector Scheme

A guide to ministerial meetings
October 2013

Cynllun Y Trydydd Sector

Canllaw i gyfarfodydd gweinidogion
Hydref 2013

Third Sector Scheme

A guide to ministerial meetings
October 2013

In Wales the third sector has a unique opportunity to engage with, and put its views to, the Welsh Government. Our ground-breaking third sector scheme sets out how Government and the sector will work together and communicate with one another. This document provides details for third sector groups who would like to know more about this relationship and the sector's meetings with Welsh Government Ministers.

Background

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The relationship between the Welsh Government and the third sector is set out in the Government of Wales Act 2006, which requires the Welsh Government to adopt a **Third Sector Scheme**, setting out how it will promote the interests of relevant third sector organisations. The ground breaking Scheme has given the sector in Wales formal mechanisms for its engagement with the Welsh Government. These include a **Third Sector Partnership Council** (TSPC), and regular **ministerial meetings** between Welsh Government Ministers and representatives from the sector.

The meetings are facilitated by WCVA, and their purpose is to 'provide an opportunity for dialogue, co-operation and action' between Ministers and the sector.

Cynllun Y Trydydd Sector

Canllaw i gyfarfodydd gweinidogion
Hydref 2013

Yng Nghymru mae gan y trydydd sector gyfle unigryw i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, a rhoi ei safbwyntiau gerbron. Mae ein cynllun trydydd sector arloesol yn nodi sut bydd y Llywodraeth a'r sector yn gweithio a chyfathrebu â'i gilydd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ar gyfer grwpiau trydydd sector a fyddai'n hoffi gwybod rhagor am y berthynas hon a chyfarfodydd y sector gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Cefndir

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Caiff y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector ei nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fabwysiadu **Cynllun y Trydydd Sector**, gan nodi sut bydd yn hyrwyddo buddiannau mudiadau perthnasol yn y trydydd sector. Mae'r Cynllun arloesol wedi rhoi dulliau ffurfiol i'r sector yng Nghymru ar gyfer ei ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys **Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector**, a **chyfarfodydd gweinidogion** rheolaidd rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r sector.

Caiff y cyfarfodydd eu hwyluso gan WCVA, a'u diben yw 'rhoi cyfle am ddeialog, cydweithrediad a chamau gweithredu' rhwng Gweinidogion a'r sector.

Who attends the ministerial meetings?

Each ministerial meeting is attended by the relevant Welsh Government Minister and officials and representatives from the third sector.

In 2000 the TSPC agreed that a 'map' should be drawn up identifying all national third sector networks that bring together groups sharing a common interest - where no network was identified in major interest areas, significant individual organisations were asked to act as the network for this interest area.

The map (which has been revised from time to time) draws from WCVA's 'All Wales database of third sector organisations' and other available sources, and is based on information supplied by the organisations concerned.

The aim of producing the map is to ensure appropriate representation at ministerial meetings by identifying relevant national third sector networks for each ministerial portfolio. Each network is asked to nominate a representative. Third sector representatives on the TSPC, including representatives from the county voluntary councils, are also invited to each ministerial meeting.

The changes to ministerial portfolios announced in March 2013 prompted WCVA to undertake a more thorough updating exercise.

Please contact the WCVA policy lead for each portfolio (details are given on the next page) for details about the networks currently linked to each ministerial portfolio, and the names of the representatives.

Pwy sy'n mynychu cyfarfodydd y gweinidogion?

Ym mhob cyfarfod gweinidogion mae Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru a swyddogion a chynrychiolwyr o'r trydydd sector yn bresennol.

Yn 2000 cytunodd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector y dylid llunio 'map' yn nodi pob rhwydwaith trydydd sector cenedlaethol sy'n dwyn ynghyd grwpiau sy'n rhannu budd cyffredin – lle na chafodd unrhyw rwydwaith ei nodi mewn meysydd buddiant mawr, gofynnwyd i fudiadau unigol amlwg weithredu fel y rhwydwaith ar gyfer y maes buddiant hwn.

Mae'r map (sydd wedi cael ei ddiwygio o dro i dro) yn defnyddio 'cronfa ddata Cymru gyfan o fudiadau trydydd sector' WCVA a ffynonellau eraill sydd ar gael, ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan y mudiadau dan sylw.

Nod cynhyrchu'r map yw sicrhau cynrychiolaeth briodol mewn cyfarfodydd Gweinidogion drwy nodi rhwydweithiau trydydd sector cenedlaethol perthnasol ar gyfer pob portffolio gweinidogion. Gofynnir i bob rhwydwaith enwebu cynrychiolydd. Caiff cynrychiolwyr o'r trydydd sector ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, yn cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau gwirfoddol sirol, hefyd eu gwahodd i bob cyfarfod gweinidogion.

Yn dilyn newidiadau i bortffolios gweinidogion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, ysgogwyd WCVA i ymgymryd ag arfer diweddaru mwy trylwyr.

Cysylltwch ag arweinydd polisi WCVA ar gyfer pob portffolio (nodir manylion ar y dudalen nesaf) i gael manylion am y rhwydweithiau sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â phob portffolio gweinidogion, ac enwau'r cynrychiolwyr.

Each Welsh Government Minister is committed to meeting with *representatives* of the relevant networks of third sector organisations covering their areas of responsibility at least twice in any one calendar year.

The Welsh Government Ministers, their portfolio areas and the relevant WCVA contacts are listed below. Please email policy@wcva.org.uk or call the helpdesk on 0800 2888 329 to get in touch with the WCVA contacts.

Huw Lewis AM **Education and Skills**	WCVA policy lead: Helen Wilkinson
John Griffiths AM **Culture and Sport**	WCVA policy lead: Tim Day
Mark Drakeford AM **Health and Social Services**	WCVA policy lead: Constance Adams
Edwina Hart MBE OStJ AM **Economy, Science and Transport**	WCVA policy lead: Geoff Jones
Jane Hutt AM **Finance**	WCVA policy lead: Gareth Coles
Carl Sargeant AM **Housing and Regeneration**	WCVA policy lead: Geoff Jones
Jeff Cuthbert AM **Communities and Tackling Poverty**	WCVA policy lead: Phil Fiander

Mae pob Gweinidog yn Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfarfod â *chynrychiolwyr* rhwydweithiau perthnasol mudiadau trydydd sector sy'n cwmpasu eu meysydd o gyfrifoldeb o leiaf ddwywaith mewn blwyddyn galendr.

Caiff Gweinidogion Llywodraeth Cymru, eu portffolios a'r cysylltiadau perthnasol yn WCVA eu rhestru isod. E-bostiwch policy@wcva.org.uk neu ffoniwch y lein gymorth ar 0800 2888 329 i gael gafael ar yr unigolion cyswllt yn WCVA.

Huw Lewis **Addysg a Sgiliau**	Arweinydd polisi WCVA: Helen Wilkinson
John Griffiths AC **Diwylliant a Chwaraeon**	Arweinydd polisi WCVA: Tim Day
Mark Drakeford AC **Iechyd a Gofal Cymdeithasol**	Arweinydd polisi WCVA: Constance Adams
Edwina Hart MBE OStJ AC **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**	Arweinydd polisi WCVA: Geoff Jones
Jane Hutt AC **Cyllid**	Arweinydd polisi WCVA: Gareth Coles
Carl Sargeant AC **Tai ac Adfywio**	Arweinydd polisi WCVA: Geoff Jones
Jeff Cuthbert AC **Cymunedau a Threchu Tlodi**	Arweinydd polisi WCVA: Phil Fiander

Carwyn Jones AM **First Minister – meeting in relation to International Development portfolio**	WCVA policy lead: Craig Owen
Alun Davies AM **Natural Resources and Food**	WCVA policy lead: Tim Day
Lesley Griffiths AM **Local Government and Government Business**	WCVA policy lead: Gareth Coles

Carwyn Jones AC **Y Prif Weinidog – cyfarfod mewn perthynas â phortffolio Datblygu Rhyngwladol**	Arweinydd polisi WCVA: Craig Owen
Alun Davies AC **Cyfoeth Naturiol a Bwyd**	Arweinydd polisi WCVA: Tim Day
Lesley Griffiths AC **Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**	Arweinydd polisi WCVA: Gareth Coles

Preparing for the meetings

WCVA has responsibility for arranging at least two planning meetings to prepare for each ministerial meeting, and also ensures that the issues raised from the third sector are of broad relevance across the sector in order to maximise the effectiveness of the meetings.

The third sector representatives should attend at least one of the two planning meetings if they wish to attend the meeting with a Minister, and should also attend the pre-meeting (usually held on the same day as the ministerial meeting). They are expected to put forward agenda items and prepare papers as necessary. They have a duty to feed back to their network and ensure effective two-way communication between the sector and the ministerial meetings.

Civil servants work with WCVA policy leads to prepare agendas, brief Ministers about agenda items, prepare minutes of all ministerial meetings, and pursue action points agreed at meetings.

WCVA provides short post-ministerial meeting updates in the fortnightly magazine *Network Wales* and also circulates all minutes and updates to the relevant networks and representatives. Further information can also be found on WCVA's website.

Paratoi ar gyfer y cyfarfodydd

Mae WCVA yn gyfrifol am drefnu o leiaf dau gyfarfod cynllunio i baratoi ar gyfer pob cyfarfod gweinidogion, ac mae hefyd yn sicrhau bod y materion a godir gan y trydydd sector yn berthnasol yn gyffredinol ar draws y sector er mwyn uchafu effeithiolrwydd y cyfarfodydd.

Dylai cynrychiolwyr y trydydd sector fynychu o leiaf un o'r ddau gyfarfod cynllunio, os ydynt yn dymuno mynychu cyfarfod gyda'r Gweinidog, a dylent hefyd fynychu'r cyn-gyfarfod (a gynhelir gan amlaf ar yr un diwrnod â'r cyfarfod gweinidogion.) Mae disgwyl iddynt roi eitemau agenda gerbron a pharatoi papurau, yn ôl yr angen. Mae dyletswydd arnynt i roi adborth i'w rhwydwaith a sicrhau cyfathrebu effeithiol dwy ffordd rhwng y sector a chyfarfod y gweinidogion.

Mae gweision sifil yn gweithio gydag arweinwyr polisi WCVA i baratoi agendâu, briffio Gweinidogion am yr eitemau ar yr agenda, paratoi cofnodion o bob cyfarfod gweinidogion, a dilyn pwyntiau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfodydd.

Mae WCVA yn darparu diweddariadau byr ar ôl cyfarfod y gweinidogion mewn cylchgrawn pob pythefnos, *Rhwydwaith Cymru* a hefyd yn anfon yr holl gofnodion a diweddariadau i'r rhwydweithiau a chynrychiolwyr perthnasol. Gellir gweld gwybodaeth bellach ar wefan WCVA.

Like to know more?

Here are some Frequently Asked Questions:

Q How can I get a copy of the Third Sector Scheme?

A The scheme is available on the Welsh Government website.

Q How can I find out more about the work carried out under the Third Sector Scheme?

A Each year the Welsh Government produces a Third Sector Scheme Annual Report which can be found on the Welsh Government website.

Q What is the Third Sector Partnership Council and how can I get involved?

A The Third Sector Partnership Council (TSPC) is a key mechanism for maintaining regular dialogue between the third sector and the Welsh Government.

It is always chaired by a minister and is made up of 25 representatives of third sector networks working across 25 key areas of third sector activity (listed on the next page), as well as representatives from WCVA.

The main purpose of the Third Sector Partnership Council is to make sure that the principles set out in the Third Sector Scheme are put into practice. It also provides an opportunity for the sector to raise key issues of interest or concern. It generally does not discuss issues that relate to only one area of interest (these can be taken up through biannual ministerial meetings) and as a national body it is concerned with issues affecting all of Wales.

The Partnership Council meets twice a year and members of the public are encouraged to come to the meetings.

A hoffech wybod rhagor?

Dyma rai cwestiynau cyffredin:

C Sut allaf gael copi o Gynllun y Trydydd Sector?

A Mae'r cynllun ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

C Sut allaf gael rhagor o wybodaeth am y gwaith a wneir o dan Gynllun y Trydydd Sector?

A Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Cynllun Trydydd Sector y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

C Beth yw Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a sut allaf gymryd rhan?

A Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ddull allweddol ar gyfer cynnal deialog reolaidd rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru.

Caiff ei gadeirio gan weinidog bob tro ac mae'n cynnwys hyd at 25 o gynrychiolwyr o rwydweithiau trydydd sector yn gweithio mewn 25 o feysydd allweddol o weithgarwch trydydd sector (gweler y rhestr ar y dudalen nesaf), yn ogystal â chynrychiolydd o WCVA.

Prif ddiben Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yw sicrhau bod yr egwyddorion a nodir yng Nghynllun y Trydydd Sector yn cael eu rhoi ar waith. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r sector godi materion allweddol o fuddiant neu bryder. Yn gyffredinol nid yw'n trafod materion sy'n ymwneud â dim ond un maes buddiant (gellir trafod hyn mewn cyfarfodydd gweinidogion chwemisol) ac fel corff cenedlaethol mae'n ymwneud â materion sy'n effeithio ar Gymru gyfan.

Mae'r Cyngor Partneriaeth yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac anogir aelodau o'r cyhoedd i ddod i'r cyfarfodydd.

Third Sector Partnership Council - 25 key areas of third sector activity

Advice and advocacy
Animal welfare
Arts, culture and heritage
Asylum seekers and refugees
Children and families
Community
Community justice
Disability
Education and training
Employment
Environment
Ethnic minorities
Gender
Health and social care
Housing
Intermediaries
International
Older people
Religion
Sexuality
Social enterprise
Sport and recreation
Volunteering
Welsh language
Youth

If you would like to get involved, please email policy@wcva.org.uk or call the helpdesk on 0800 2888 329 to find out the details of the 25 networks that you can link in with.

Q How do I find out what's on the agenda of the next ministerial meeting I am interested in?

A Contact the WCVA policy lead for the relevant portfolio (contact details on page 4).

Q Can our group see the minutes of the ministerial meetings – if so, where?

A The minutes of all of the meetings can be found on the Welsh Government website.

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector - 25 maes allweddol gweithgarwch y trydydd sector

Cyngor ac eiriolaeth
Lles anifeiliaid
Y Celfyddydau, diwylliant a threftadaeth
Ceiswyr lloches a ffoaduriaid
Plant a theuluoedd
Y Gymuned
Cyfiawnder cymunedol
Anabledd
Addysg a hyfforddiant
Cyflogaeth
Yr Amgylchedd
Lleiafrifoedd ethnig
Rhyw
Iechyd a gofal cymdeithasol
Tai
Cyfryngwyr
Rhyngwladol
Pobl hŷn
Crefydd
Rhywioldeb
Mentrau cymdeithasol
Chwaraeon a hamdden
Gwirfoddoli
Yr iaith Gymraeg
Ieuenctid

Os hoffech gymryd rhan, e-bostiwch policy@wcva.org.uk neu ffoniwch y lein gymorth ar 0800 288 8329 i gael manylion y 25 rhwydwaith y gallwch fod yn gysylltiedig â hwy.

C Sut allaf gael gwybod beth fydd ar agenda cyfarfod nesaf y gweinidogion y mae gennyf ddiddordeb ynddo?

A Cysylltwch ag arweinydd polisi WCVA ar gyfer y portffolio perthnasol. (manylion cyswllt ar dudalen 4).

C All ein grŵp weld cofnodion cyfarfodydd y gweinidogion – os felly, ble?

A Gellir gweld cofnodion yr holl gyfarfodydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Q **We are a national organisation - how can we get involved in ministerial meetings?**

A Contact the WCVA policy lead for the relevant portfolio (contact details on page 4) and they will advise you of the details of the national network you can join to link into the ministerial meeting process.

Q **We're a local group – how can we ensure our views are represented?**

A Contact the WCVA lead for the relevant portfolio (contact details on page 4) and they will advise you of the details of the contact within your local CVC who will help you to link into the ministerial meeting process.

Q **I'd like to know more about the networks involved in a particular portfolio and who the representatives on these networks are.**

A Contact the WCVA policy lead for the relevant portfolio (contact details on page 4) and they will advise you of the details of the networks involved in the portfolio you are interested in.

Q **How can I sign up to receive *Network Wales*?**

A *Network Wales* is produced fortnightly and is available to all WCVA members. If you would like to become a member of WCVA you can contact the Helpdesk on 0800 2888 329, e-mail: help@wcva.org.uk or you can fill an application form online on the WCVA website.

C **Rydym yn fudiad cenedlaethol – sut allwn ni gymryd rhan yng nghyfarfodydd y gweinidogion?**

A Cysylltwch ag arweinydd polisi WCVA ar gyfer y portffolio perthnasol (manylion cyswllt ar dudalen 4) a byddant yn eich cynghori ar fanylion y rhwydwaith cenedlaethol y gallwch ymuno â hi i fod yn rhan o broses y cyfarfod gweinidogion.

C **Rydym yn grŵp lleol – sut allwn ni sicrhau bod ein safbwyntiau ni yn cael eu cynrychioli?**

A Cysylltwch ag arweinydd polisi WCVA ar gyfer y portffolio perthnasol (manylion cyswllt ar dudalen 4) a byddant yn eich cynghori ar fanylion y person cyswllt yn eich cyngor gwirfoddol sirol a fydd yn eich helpu i fod yn rhan o broses y cyfarfod gweinidogion.

C **Hoffwn wybod rhagor am y rhwydweithiau sy'n ymwneud â phortffolio penodol a phwy yw'r cynrychiolwyr ar y rhwydweithiau hyn.**

A Cysylltwch ag arweinydd polisi WCVA ar gyfer y portffolio perthnasol (manylion cyswllt ar dudalen 4) a byddant yn eich cynghori ar fanylion y rhwydweithiau sy'n rhan o'r portffolio y mae gennych ddiddordeb ynddo.

C **Sut allaf gofrestru i dderbyn *Rhwydwaith Cymru*?**

A Cynhyrchir *Rhwydwaith Cymru* bob wythnos ac mae ar gael i holl aelodau WCVA. Os hoffech ddod yn aelod o WCVA gallwch gysylltu â'r Lein Gymorth ar 0800 288 8329, e-bostio help@wcva.org.uk neu gallwch lenwi ffurflen gais ar-lein ar wefan WCVA.

Keeping you informed:

This document is intended to provide you with some introductory information about ministerial meetings and let you know how you can find out more.

We would welcome suggestions about how we can improve the dissemination of information about the ministerial meetings and the Third Sector Scheme. They can only be as effective as we all make them so please get in touch and get involved.

Please also contact us if you would like to discuss other opportunities for dialogue with Welsh Government Ministers, as well as Assembly Members, civil servants and other decision makers.

Email policy@wcva.org.uk or call the Helpdesk on 0800 2888 329.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi:

Nod y ddogfen hon yw rhoi rhywfaint o wybodaeth ragarweiniol i chi am gyfarfodydd y gweinidogion a rhoi gwybod i chi sut allwch gael rhagor o wybodaeth.

Byddem yn croesawu awgrymiadau am sut allwn wella dosbarthiad gwybodaeth am gyfarfodydd y gweinidogion a Chynllun y Trydydd Sector. Maent mor effeithiol ag y gwnawn hwy felly cysylltwch i gymryd rhan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni i drafod unrhyw gyfleoedd arall i gynnal deialog gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad, gweision sifil a phobl eraill sy'n llunio penderfyniadau.

E-bostiwch policy@wcva.org.uk neu ffoniwch y Lein Gymorth ar 0800 2888 329.

Wales Council for Voluntary Action
Baltic House
Mount Stuart Square
Cardiff
CF10 5FH

Tel: 0800 2888 329
Email: help@wcva.org.uk
Minicom: 0808 180 4080

October 2013
Registered charity number 218093

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH

Ffôn: 0800 2888 329
E-bost: help@wcva.org.uk
Minicom: 0808 180 4080

Hydref 2013
Rhif elusen gofrestredig 218093